# Safonau Golygyddol y BBC

## Dogfen Ymgynghori

Cyhoeddwyd: 7 Tachwedd 2024

## Pwrpas

Mae'r BBC wedi agor ymgynghoriad ar ddrafft diwygiedig o'r Canllawiau Golygyddol. Mae'r rhain yn gosod y safonau cynnwys ar gyfer gwneuthurwyr rhaglenni, ac yn cynnwys 18 adran sy'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau gan gynnwys didueddrwydd, cywirdeb, tegwch a phreifatrwydd. Mae'r Canllawiau'n adlewyrchu Cod Darlledu Ofcom ond maent yn mynd ymhellach mewn rhai meysydd, gan gynnwys defnyddio didueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy.

Mae'r ddogfen hon yn egluro pam ein bod yn ymgynghori, beth rydym yn ymgynghori yn ei gylch a sut i ymateb.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored o ddydd Iau 7 Tachwedd tan ddydd Iau 19 Rhagfyr 2024

Sylwch: Bydd y Canllawiau cyfredol (2019) yn dal mewn grym nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben a bod y Canllawiau diwygiedig wedi cael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi gan Fwrdd y BBC.

## Cyflwyniad

Mae cynulleidfaoedd yn gwbl briodol yn disgwyl y safonau uchaf gan y BBC – gwirionedd, cywirdeb, didueddrwydd ac amrywiaeth barn – a bod yr wybodaeth a gânt yn annibynnol, yn awdurdodol ac yn ddibynadwy. Maent yn disgwyl i'r BBC wasanaethu budd y cyhoedd, bod yn deg, amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed rhag niwed, osgoi troseddau nad oes modd eu cyfiawnhau, parchu preifatrwydd, a diogelu lles plant a phobl ifanc. Ar yr un pryd, maent yn disgwyl i'r BBC gydbwyso hyn ag arfer rhyddid mynegiant mewn darlledu neu gyhoeddi cynnwys sy'n profi rhagdybiaethau ac yn gwthio ffiniau.

Mae Canllawiau Golygyddol y BBC yn ffordd allweddol o sicrhau'r disgwyliadau hyn. Maent yn ymgorffori gwerthoedd a chyfrifoldebau'r BBC ac maent yn un o'r dogfennau pwysicaf mae'r BBC yn eu cyhoeddi. Fe'u cynlluniwyd i gefnogi creadigrwydd ac i helpu gwneuthurwyr cynnwys i bwyso a mesur risgiau a gwneud penderfyniadau golygyddol anodd. Y Canllawiau sy'n gosod y safonau golygyddol ar gyfer holl gynnwys y BBC ac maent hefyd yn bodloni gofynion rheoleiddiwr y BBC, Ofcom.

Er bod y gwerthoedd a'r safonau hyn yn dal yn gyson, mae'r canllawiau eu hunain yn datblygu dros amser i ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth, technoleg, datblygiadau mewn meddylfryd golygyddol a gwersi a ddysgwyd o ddyfarniadau golygyddol, yn ogystal ag adlewyrchu newidiadau yn agweddau'r cyhoedd. Felly, mae'r BBC yn adolygu'r Canllawiau Golygyddol o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n gofynion cyfreithiol ac â disgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd.

Mae glynu wrth y Canllawiau yn ofyniad cytundebol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio i'r BBC ac ar gyfer pob cwmni cynhyrchu annibynnol sy'n cynhyrchu cynnwys ar gyfer y BBC.

## Y Cyd-destun Rheoleiddio

Mae Gwerthoedd Golygyddol y BBC, fel yr adlewyrchir yn y Canllawiau Golygyddol, yn seiliedig ar rwymedigaethau'r BBC o dan ei Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith. Mae Siarter

Frenhinol y BBC[1] yn nodi Cenhadaeth y BBC, sef gweithredu er budd y cyhoedd, gan wasanaethu ei holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Y Siarter Frenhinol sydd hefyd yn sefydlu annibyniaeth y BBC oddi wrth y llywodraeth, yn gwarantu ei ryddid golygyddol ac artistig ac yn diogelu ffi'r drwydded.

Mae'r Siarter yn nodi Dibenion Cyhoeddus y BBC:

1. Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymwneud â'r byd o'u cwmpas.

2. Cefnogi dysgu i bobl o bob oed.

3. Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol a neilltuol sydd o'r ansawdd gorau.

4. Adlewyrchu, portreadu a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, hybu'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig.

5. Dangos y Deyrnas Unedig, ei diwylliant a'i gwerthoedd i'r byd.

**Mae'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb Fframwaith ategol [2] yn cadarnhau bod dyletswydd ar Fwrdd y BBC i bennu'r safonau ar gyfer allbwn a gwasanaethau golygyddol a chreadigol y BBC.** Rhaid i'r BBC gyhoeddi, adolygu o bryd i'w gilydd a sicrhau y dilynir y canllawiau sydd wedi cael eu cynllunio i sicrhau safonau golygyddol priodol ar gyfer ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU. Rhaid iddo hefyd ddiogelu a chynnal uniondeb golygyddol ac ansawdd uchel BBC World Service a BBC Monitoring.

Mae cynhyrchu a chynnal y Canllawiau Golygyddol hyn yn cyflawni'r gofynion hynny. Maent yn berthnasol i'r holl gynnwys sy'n cael ei ddarlledu neu ei gyhoeddi gan y BBC pwy bynnag sy'n ei greu ac ym mha ffordd bynnag ac ym mha le bynnag yn y byd y mae'n cael ei wneud neu ei dderbyn. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol, fel prif olygydd y BBC, sy'n gyfrifol yn y pen draw am ei gynnwys golygyddol, ond rhaid i bawb sy'n ymwneud â chreu cynnwys ar gyfer y BBC weithio i'r safonau a nodir ynddynt. Bydd yr holl allbwn a wneir yn unol â'r Canllawiau Golygyddol hyn hefyd yn bodloni gofynion rheoleiddiwr y BBC, Ofcom3.

Mae'r Canllawiau yn amlinellu rhwymedigaethau rheoleiddiol a moesegol y BBC, sydd yn aml yn mynd ymhellach na'r gyfraith. Bydd achlysuron pan fernir bod cynnwys yn ddiogel i'w gyhoeddi neu ei ddarlledu ar sail gyfreithiol, ond ei fod er hynny yn peri risg i enw da'r BBC neu ei allu i gydymffurfio â rheoliadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y BBC yn ceisio ymddwyn yn foesegol. Er bod cyfreithwyr a'r Canllawiau Golygyddol yn darparu cyngor, mae'r cyfrifoldeb golygyddol a'r penderfyniad terfynol ynghylch darlledu neu gyhoeddi cynnwys yn aros gyda rheolwyr golygyddol y BBC.

---

[1] Darlledu: Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016.

[2] Darlledu: Cytundeb rhwng Ysgrifennydd Gwladol Ei Mawrhydi dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016.

[3] Cod Darlledu Ofcom.

O dan y Siarter, rhaid i Ofcom reoleiddio safonau cynnwys perthnasol ar Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Codau Safonau a Chodau Tegwch Ofcom[4]. Felly mae'n ystyried cwynion yn erbyn rhywfaint o gynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar y BBC.

Nid yw Ofcom yn rheoleiddio safonau BBC World Service.

Nid yw gwasanaethau darlledu masnachol y BBC, a ddarperir gan gwmnïau'r BBC, yn Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU ond bydd safonau eu cynnwys yn cael eu rheoleiddio gan Ofcom lle maent yn cael eu dosbarthu o dan drwyddedau Ofcom.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Ganllawiau Golygyddol y BBC, y mae'r Bwrdd yn gyfrifol amdanynt, gyrraedd o leiaf y safonau a bennir gan God Darlledu Ofcom. Mae canllawiau'r BBC yn gosod safon uwch mewn rhai achosion, ac yn amrywio'n ehangach na'r hyn sy'n ofynnol gan God Ofcom.

Wrth ystyried cwynion am safonau golygyddol yng nghynnwys y BBC, bydd y BBC yn ystyried a yw'r BBC wedi dilyn y Canllawiau Golygyddol.

## Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Mae Bwrdd y BBC wedi cymeradwyo fersiwn drafft o'r Canllawiau Golygyddol ar gyfer ymgynghori arno, a gyhoeddir yma, a bydd yn ystyried safbwyntiau a fynegir yn yr ymgynghoriad cyn cwblhau a chyhoeddi'r Canllawiau.

Mae nifer o newidiadau allweddol i rifyn 2019, sydd wedi'u nodi'n fanwl yn Adran Dau y ddogfen hon.

Croesawn safbwyntiau ynghylch y cwestiynau canlynol:

1) Ydy'r Canllawiau drafft yn glir ac yn syml?
2) Ydyn nhw'n nodi safonau golygyddol priodol ar gyfer y rheini sy'n gwneud rhaglenni a chynnwys y BBC?
3) Ydyn nhw'n adlewyrchu'n ddigonol y newidiadau yn y dirwedd cyfryngau ers yr adolygiad diwethaf yn 2019?

Sylwch mai dogfen ddrafft yw'r Canllawiau Golygyddol mae'r BBC yn ymgynghori yn eu cylch. Bydd y nodiadau testunol – troednodiadau a chroesgyfeiriadau – yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar ôl llunio'r canllawiau terfynol. Bydd y canllawiau hefyd yn cael eu diweddaru i

[4] Erthygl 46 Prif Swyddogaethau Ofcom, Darlledu: Siarter Frenhinol ar gyfer Parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig Rhagfyr 2016.

adlewyrchu safbwynt diweddaraf y BBC ar ddefnyddio’r term ‘talent’ ar ôl i’r canllawiau gael eu cwblhau.

Bydd y Canllawiau Golygyddol cyfredol (2019) yn dal mewn grym nes bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben a bod y canllawiau diwygiedig wedi cael eu llunio’n derfynol, a’u cyhoeddi.

## Y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad hwn:

Nid yw’r BBC yn ymgynghori ar unrhyw un o’r newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r canlynol:

- Newidiadau i’r canllawiau sy’n rhoi agweddau ar God Darlledu Ofcom ar waith.
- Newidiadau yn y canllawiau fel y maent yn ymwneud â rhwymedigaethau cyfreithiol neu ymrwymiadau a wneir mewn ymchwiliadau Seneddol.
- Ni fydd y BBC yn ystyried ymatebion, nac elfennau o ymatebion, sy’n ceisio ailagor mater neu gŵyn y mae’r BBC neu Ofcom wedi dod i benderfyniad terfynol arno o’r blaen. Ni fydd chwaith yn ystyried materion sydd y tu allan i gwmpas y Canllawiau, fel unrhyw gyflwyniad ynghylch cyflogau, treuliau neu ffi’r drwydded ei hun.

## Sut mae ymateb

Os hoffech ymateb i’r ymgynghoriad hwn, e-bostiwch eich ymateb i editorialguidelinesreview@bbc.co.uk.

Wrth gyflwyno eich ymateb, cofiwch ddarllen a chwblhau’r datganiad cyfrinachedd a diogelu data fel bo’n briodol.

Ni fyddwn yn ystyried ymatebion sarhaus neu dramgwyddus.

Mae’r ymgynghoriad yn agored o ddydd Iau 7 Tachwedd tan ddydd Iau 19 Rhagfyr

## Beth sy’n digwydd nesaf?

Bydd Bwrdd y BBC, gan ystyried yr ymatebion i’r ymgynghoriad a ddaw i law, yn ystyried a oes angen gwneud rhagor o newidiadau i’r Canllawiau Golygyddol i sicrhau eu bod yn bodloni’r gofynion a nodir yn y Siarter.

## Adran Dau – Prif newidiadau i fersiwn 2019

*Sylwch mai dogfen ddrafft yw'r Canllawiau Golygyddol Drafft. Bydd y nodiadau testunol – troednodiadau a chroesgyfeiriadau – yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar ôl llunio'r Canllawiau terfynol. Bydd pob adran yn cynnwys tabl cynnwys, a bydd mynegai. Adrannau 2 – 17*
Mae'r adrannau hyn bellach wedi eu nodi gyda chyflwyniad, egwyddorion a chanllawiau. Cafodd y newid hwn ei wneud mewn ymateb i adborth gan feysydd gwneud rhaglenni eu bod yn gweld eisiau set glir o egwyddorion.

*Adran 1: Safonau Golygyddol y BBC – Gwybodaeth Hanfodol*
Mae'r adran hon bellach yn cynnwys gwybodaeth am sut i ddefnyddio'r canllawiau. Nid yw'r olaf bellach yn adran ynddo'i hun.

Mewn ymateb i adborth, mae'r drafft yn dychwelyd i amlinellu budd y cyhoedd ar ffurf pwyntiau bwled (1.3).

Mae'r adrannau ar Ofcom (1.5) a Chwynion (1.7) yn adlewyrchu canlyniad Adolygiad Canol Tymor y BBC. (Asesiad y llywodraeth o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoleiddio'r BBC a'r argymhellion sy'n deillio o hynny.)

*Adran 2: Didueddrwydd*
Mae prif flaenoriaeth y BBC, sef adnewyddu ein hymrwymiad i fod yn ddiduedd, yn cael ei hadlewyrchu yn yr adran Ddidueddrwydd yn yr adran gyntaf o'r prif ganllawiau, cyn cywirdeb.

Mae cwmpas ac amlygrwydd didueddrwydd yn nhelerau'r BBC wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi'r canllawiau cyfredol, gyda cheisiadau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i wleidyddiaeth, polisi cyhoeddus a meysydd eraill a arferai gwmpasu'r hyn a oedd yn cael ei ystyried yn 'faterion dadleuol'. Mae'r cyfryngau cymdeithasol a newid diwylliannol, canllawiau newydd i staff, a datblygiadau technolegol i gyd yn golygu bod adolygiad sylweddol o'r adran hon wedi bod yn angenrheidiol, gan wneud yn siŵr bod egwyddorion sylfaenol didueddrwydd y BBC yn cael eu hailddatgan yn briodol yn yr amgylchedd hwn sy'n newid.

Mae mwy o atgyfeiriadau gorfodol yn yr adran Didueddrwydd nag o'r blaen, sy'n adlewyrchu'r amlygrwydd a'r sensitifrwydd cynyddol ynghylch didueddrwydd. (2.3)

Mae'r canllaw ar ehangder barn wedi cael ei ehangu ac mae'n cydnabod y gallai ehangder ac amrywiaeth priodol, ynghyd â rhyddid mynegiant, olygu y bydd rhywfaint o'r safbwyntiau sy'n cael eu cynnwys yn dramgwyddus i rai yn y gynulleidfa. (2.4.2)

Mae'r adran ar Safbwyntiau Dadleuol a Thramgwydd Posibl (2.4.16) bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar ryddid mynegiant a'r angen weithiau i ystyried didueddrwydd mewn dyfarniadau ynghylch 'trais', a allai nawr gynnwys materion y tu hwnt i, er enghraifft safbwyntiau gwleidyddol eithafol (sy'n cael mwy o ffocws yn y canllawiau cyfredol). Mae atgyfeiriad

gorfodol newydd sy'n uwchgyfeirio'r broses o wneud penderfyniadau pan fydd angen gwneud y penderfyniadau anodd iawn hyn. Ei fwriad yw gwarchod rhag 'hunan-sensoriaeth' pan fydd osgoi tramgwyddo drwy hepgor safbwyntiau a allai fod yn dramgwyddus – ond yn gyfreithlon – weithiau'n ymddangos yn opsiwn 'mwy diogel'.

Mae'r adran ar Bynciau Dadleuol, Polisi Cyhoeddus Cyfredol a Materion Gwleidyddol (2.4.5) wedi cael ei hail-lunio i'w gwneud yn glir bod hon yn ystyriaeth bwysig ar gyfer yr holl allbwn, nid dim ond newyddion a materion cyfoes.

Mae adran mynegi barn yn gyhoeddus (2.4.14) bellach yn yr adrannau Didueddrwydd a Gwrthdaro rhwng Buddiannau. Mae hyn wedi cael ei wneud i bwysleisio'r cysylltiad â didueddrwydd ac i bwysleisio bod hyn yn rhywbeth y dylai staff gymryd cyfrifoldeb drosto eu hunain, a'i weld yng nghyd-destun eu blaenoriaeth ehangach eu hunain a'r BBC o ran didueddrwydd ac nid dim ond yng nghyd-destun mwy cul y gwrthdaro rhwng eu buddiannau eu hunain.

Mae'r canllaw ar gysylltiadau cyfranwyr (2.4.17) wedi cael ei ehangu a'i aralleirio er mwyn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr ystyriaethau ar gyfer y dyfarniadau hyn, a'r angen i gynnwys gwybodaeth allweddol fel eu profiadau eu hunain.

Mae'r adran hon bellach yn cynnwys adran dan y teitl 'Defnyddio Technoleg' (2.4.19), sy'n cydnabod, am y tro cyntaf, y materion posibl o ran didueddrwydd sy'n deillio o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) ac awtomeiddio er enghraifft.

Mae adran newydd ar Brotestiadau a Gwrthdystiadau (2.4.21) sy'n cydnabod bod protestiadau a gwrthdystiadau cyfreithiol yn fater o ryddid mynegiant a didueddrwydd. Yn y canllawiau cyfredol, roedd y canllaw ar hyn yn yr adran Rhyfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau. Mae'r canllawiau drafft yn cysylltu â'r adran hon ond y nod yw cael yr holl ystyriaethau o ran didueddrwydd yn yr un adran Ddidueddrwydd er mwyn ei gwneud yn haws i'r holl staff ddod o hyd iddynt, a'u deall.

Ceir canllaw estynedig ar graffu, sy'n rhoi rhagor o gyd-destun i ystyr hyn. (2.4.22)

Mae rhagor o eglurder ynghylch sut y dylai rhaglenni Newyddion 'dynnu sylw' i adlewyrchu sut y bydd elfennau pwysig o'r ddadl yn cael eu cyflwyno mewn rhaglen arall. (2.4.29)

Mae atgyfeiriad gorfodol newydd i'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer drama, adloniant neu allbwn diwylliannol sy'n ymdrin â materion polisi cyhoeddus, gwleidyddol neu ddiwydiannol dadleuol presennol, neu 'bynciau dadleuol' eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r risg bosibl i enw da'r BBC os na fydd ystyriaethau didueddrwydd yn cael eu hystyried o'r dechrau. (2.4.30)

### *Adran 3: Cywirdeb*

Mae'r atgyfeiriad gorfodol i Gyfarwyddwr Gogledd Iwerddon wedi cael ei symud o'r Adran 2 gyfredol (Sut i Ddefnyddio'r Canllawiau) i'r adran Cywirdeb. Mae'r atgyfeiriad wedi cael ei ehangu i'w gwneud yn glir y dylid rhoi gwybod ymlaen llaw i Gyfarwyddwyr Cenhedloedd eraill os ydynt yn creu deunydd sy'n delio â materion neu themâu cenedlaethol neu ranbarthol sylweddol, ac nad ydynt wedi'u lleoli yn y genedl honno. (3.3.3)

Mae'r adran ar Ohebu ar Risg (3.4.9) wedi cael ei hehangu i adlewyrchu'r themâu sy'n peri pryder ar hyn o bryd, sef yr economi, y tywydd a'r hinsawdd.

Mae adran newydd ar 'Gynnwys a Gynhyrchir gan Ddefnyddwyr, Cyfryngau Cymdeithasol a Deunydd Ar-lein Arall', sy'n cydnabod eu bod fel arfer yn rhan o'r un gronfa o ddeunyddiau. (3.4.10)

Mae'r canllaw ar Gyhoeddi Fideo a Sain / Deunydd gan Drydydd Partïon wedi cael ei ehangu a'i ailysgrifennu, gan gymryd dyfyniadau o'r nodiadau cyfarwyddyd ar Gyhoeddi Fideo a Newyddion, i adlewyrchu'r duedd gynyddol i sefydliadau geisio osgoi craffu a darparu eu cynnwys eu hunain. (3.4.13-14)

Mae'r adran ar gamarwain cynulleidfaoedd wedi cael ei diwygio i gynnwys canllaw newydd ar sut mae cywirdeb yn berthnasol i wahanol genres, fel y byd naturiol (3.4.17); a chanllaw newydd ar hepgor gwybodaeth, gan ei gwneud yn glir beth yw effaith hepgor gwybodaeth ar gywirdeb (3.4.19).

Mae adran newydd ar dechnoleg, yn benodol defnyddio deallusrwydd artiffisial. (3.4.27)

Mae'r adran ar Gywiro Camgymeriadau wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu adborth Ofcom, gan ei gwneud yn glir lle mae'r cywiriad yn cael ei wneud a thynnu sylw at y ffaith fod cywiriad wedi cael ei wneud. (3.4.34)

### *Adran 4: Gwrthdaro Rhwng Buddiannau*

Mae'r adran hon wedi cael ei symud yn uwch yn y canllawiau i ddilyn yr adrannau Didueddrwydd a Chywirdeb. Drwy ei rhoi yn nes at Ddidueddrwydd, y gobaith yw y bydd yn pwysleisio'r angen i gysylltu unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau â'r angen i gadw at ganllawiau Didueddrwydd. Dylai dod â'r ddwy adran yn nes at ei gilydd hwyluso croesgyfeirio hefyd.

Mae'r adran hon wedi cael ei diwygio i adlewyrchu'r argymhellion yn Adolygiad John Hardie, *Review of BBC's guidance on individual use of personal social media for those working in the on-air freelance community, outside News, Current Affairs and Factual Journalism* ac i adlewyrchu'r nodiadau cyfarwyddyd newydd ar y cyfryngau cymdeithasol**.** (o 4.4.14)

Ceir canllaw newydd ar yrfaoedd portffolio i adlewyrchu'r nifer cynyddol o unigolion sy'n gweithio i'r BBC ac i sefydliadau eraill. (4.4.5)

Mae'r adran ar hyfforddiant ar y cyfryngau wedi cael ei diwygio i sicrhau nad oes unrhyw effaith ar ddidueddrwydd y BBC. (4.4.32)

Mae'r canllaw ar hysbysebu a chymeradwyo masnachol wedi cael ei ddiweddaru i gynnwys cynnyrch fepio, gamblo neu alcohol. (4.4.35)

### *Adran 5: Niwed a Thramgwydd*

Mae newidiadau yn y Cod Darlledu ar ofal dyladwy yn cael eu hadlewyrchu yn yr adran hon. Yn yr un modd â'r Cod, mae'r rhan fwyaf o'r gofynion yn dod o dan Degwch, ond mae'r adran hon

bellach yn cynnwys canllaw ar ddangos gofal dyladwy lle mae risg o dramgwyddo cynulleidfaoedd os ydynt yn teimlo nad ydym wedi rhoi digon o gymorth i gyfrannwr. (5.4.49)

Mae'r adran ar Iaith wedi cael ei diwygio'n sylweddol i gynnwys y broses atgyfeirio ynghylch defnyddio iaith hiliol a'r ystyriaethau ynghylch defnyddio iaith hiliol a thermau gwahaniaethol eraill. Mae hefyd wedi cael ei ddiwygio i gynnwys ystumiau.

Mae ystyriaethau ynghylch gamblo wedi cael eu hychwanegu at yr adran hon. (5.4.52)

Mae cynllun yr adran hon wedi cael ei symleiddio er mwyn i faterion sy'n ymwneud ag amserlennu gael eu hystyried mewn un adran – sy'n adlewyrchu Ystyriaethau'r Cod Darlledu sy'n ymwneud â darlledu heb fod yn llinol, gan gynnwys Fideo Ar-alw, gan gyd-fynd â sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio cynnwys yn cael eu hadlewyrchu'n fwy clir. Rhestrir amrywiaeth o faterion sy'n debygol o achosi niwed a thramgwydd, a'r ystyriaethau sy'n berthnasol i bob un ohonynt.

### *Adran 6: Tegwch*

Mae teitl yr adran hon wedi newid o 'Degwch at Gyfranwyr a Chydsyniad' i 'Degwch'. Mae hyn yn adlewyrchu Cod Ofcom ond hefyd oherwydd bod agweddau ar yr adran hon yn berthnasol y tu hwnt i feysydd cyfranwyr a chydsyniad.

Mae adran newydd ar daliadau i gyfranwyr at allbwn Newyddion a Materion Cyfoes a newyddiaduraeth ffeithiol am adrodd eu stori, gydag atgyfeiriad gorfodol i'r tîm Polisi Golygyddol. Mae hyn er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y BBC, gan gynnwys allbwn sy'n cael ei wneud gan gwmnïau annibynnol. (6.4.13)

Mae'r canllawiau ar Gyfranwyr a Chydsyniad (6.4.1-11) a Diogelwch a Dyletswydd Gofal tuag at Gyfranwyr (6.4.22-24) wedi cael eu diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau yng Nghod Ofcom ar ofal dyladwy.

Mae'r adran hon bellach yn cynnwys y sefyllfa gyfreithiol ddiweddaraf yng Ngogledd Iwerddon ar yr hawl i anhysbysrwydd i ddioddefwyr honedig troseddau rhywiol drwy gydol eu hoes a 25 mlynedd ar ôl eu marwolaeth. (6.4.37)

### *Adran 7: Preifatrwydd*

Mae'r adran ar Ymchwiliadau a oedd gynt yn yr adran ar Ohebu ar Droseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi cael ei symud i'r rhan recordio cudd o'r adran Preifatrwydd. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn haws i wneuthurwyr rhaglenni lywio holl agweddau ymchwiliad yn yr un maes. Er mwyn helpu i lywio, mae'r is-adran wedi cael ei newid i'w gwneud yn glir bod hyn yn cynnwys recordio cudd ar gyfer ymchwiliadau. (7.4.15)

Mae'r atgyfeiriadau gorfodol cysylltiedig sy'n ymwneud ag ymchwiliadau hefyd wedi symud ac maent bellach yn yr adran Preifatrwydd. (7.4.17)

Mae'r rhestr cyfiawnhad ar sail budd y cyhoedd, a amlinellwyd i helpu i asesu a ddylid comisiynu recordio cudd fel adnodd ymchwilio, wedi cael ei hehangu i gynnwys meini prawf newydd. (7.4.11) Dyma'r pwyntiau bwled newydd:

- mae ffyrdd eraill o gadarnhau'r deunydd ffynhonnell wedi cael eu hystyried a bernir eu bod yn annigonol i brofi'r ymddygiad
- mae'n bwysig gweld a chofnodi tystiolaeth o'r ymddygiad yn uniongyrchol – mae'r recordiad yn angenrheidiol er mwyn darparu cyd-destun, hygrededd a chyfrannu at ddilysrwydd y cynnwys.

Mae'r canllawiau a'r atgyfeiriadau gorfodol ar dorri'r gyfraith wedi cael eu symud o adran 18, Y Gyfraith, i'r rhan ymchwiliadau o'r adran Preifatrwydd. (7.4.43)

Mae'r atgyfeiriad gorfodol ynghylch defnyddio'r rheini sydd â chofnod troseddol ar gyfer ymchwiliadau wedi cael ei dynhau i gynnwys taliadau i'r rheini sydd â chofnod troseddol. Mae'r atgyfeiriad hwn hefyd yn cael ei ddyblygu yn yr adran troseddau. (7.4.19)

Mae adran newydd ar Hacio (7.4.44), gan gynnwys atgyfeiriadau gorfodol.

Mae'r atgyfeiriad gorfodol ar gyfer dronau wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod defnyddio drôn yn llawer mwy cyffredin yn 2024 nag yn 2019, ac nad oes angen atgyfeirio er mwyn ei ddefnyddio bob amser. Mae'r atgyfeiriad nawr yn dweud bod angen atgyfeirio 'lle gallai dresmasu ar breifatrwydd'. (7.3.19)

Mae atgyfeiriad newydd i'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer cyfweld yn ddirybudd gyda'r dull blaenorol. (7.3.23)

Mae'r canllawiau ar ffilmio'n agored mewn mannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd wedi cael eu diwygio i ddileu'r rhagdybiaeth y byddem yn rhoi'r gorau i ffilmio os gofynnir i ni wneud hynny, ac yn hytrach yn cyflwyno'r egwyddor y byddem yn defnyddio deunydd a gesglir yn y modd hwn hyd yn oed os gofynnir i ni beidio â gwneud hynny. (7.4.3)

Mae canllaw newydd yn nodi mai'r BBC sy'n gyfrifol am gydsyniad, ac ni all gwneuthurwyr rhaglenni ddibynnu ar gael cydsyniad drwy drydydd partïon. (7.4.5)

Mae'r meini prawf ar gyfer darlledu neu gyhoeddi recordiadau a wnaed at ddibenion cymryd nodiadau wedi cael eu cryfhau. (7.4.31)

Mae'r rhestr o brotocolau wrth ffilmio ar eiddo preifat wrth ddilyn cyrchoedd wedi cael ei diwygio gan ychwanegu dau brotocol newydd ac aralleirio rhywfaint o'r geiriad cyfredol er symlrwydd. (7.4.51) Mae'r protocolau newydd yn ymwneud â chanolbwyntio ar darged y cyrchoedd ac osgoi ffilmio eiddo personol oni bai fod hynny'n berthnasol.

Diwygiwyd yr adran ar Wybodaeth Bersonol er mwyn ei gwneud yn glir bod y gyfraith yn wahanol yn yr Alban. (7.4.58)

Mae adran newydd ar ystyriaethau preifatrwydd wrth ddefnyddio technoleg i gasglu gwybodaeth bersonol; ac fel adnodd i wella ansawdd cynnwys, fel sain neu luniau. (7.4.64-65)

### *Adran 8: Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol*

Mae’r teitl wedi newid o ‘Gohebu ar Droseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol’ i’w wneud yn fwy cyffredinol ac nid dim ond ar gyfer y rhai sy’n ymwneud â gohebu.

Mae’r cyflwyniad yn cynnwys cysyniad newydd o beth yw trosedd, yn dibynnu ar ble mae yn y byd. (8.1)

Mae pwysigrwydd rhyddid mynegiant a’r cysyniad y gallai fod budd i’r cyhoedd mewn cynnwys safbwyntiau a allai gael eu hystyried yn annifyr neu’n eithafol wedi cael ei ychwanegu fel egwyddor. (8.2.1)

Mae’r geiriad ar gyfer yr atgyfeiriad gorfodol ar gyfer unrhyw gynnig i gyfweld â phedoffeil neu droseddwr rhyw arall yn y carchar neu ar ôl ei ryddhau o’r carchar wedi cael ei dynhau. Mae bellach yn ei gwneud yn glir ei fod yn atgyfeiriad gorfodol i’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol. (8.3.8)

Mae’r gair ‘cyswllt’ wedi cael ei ychwanegu at yr atgyfeiriad gorfodol cyfredol ar gyfer cyfweld â throseddwr sy’n weithredol yn y DU, neu mae'r awdurdodau yn chwilio amdano yn y DU (8.3.3). Mae’r canllawiau’n nodi bod yn rhaid i unrhyw gynnig i gyfweld neu gysylltu â throseddwr sy’n gweithredu yn y DU, neu mae'r awdurdodau yn chwilio amdano yn y DU, gael ei atgyfeirio i’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol (8.4.14).

Bellach mae atgyfeiriad gorfodol at y tîm Polisi Golygyddol ar gyfer enwi plant neu bobl ifanc. (8.4.32)

Mae’r atgyfeiriad ar gyfer mynd i mewn i garchar tramor i gynnal cyfweliad wedi cael ei newid o atgyfeiriad gorfodol i’r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol i atgyfeiriad i’r tîm Polisi Golygyddol. (8.3.18)

Mae’r canllaw ar ddarlledu galwadau byw gan garcharorion wedi cael ei wneud yn gliriach ac mae bellach yn atgyfeiriad gorfodol i’r tîm Polisi Golygyddol. (8.4.23)

Mae’r adran ar Ohebu o Lysoedd ac Ymdrin â Threialon wedi cael ei diweddaru i gynnwys cyfeiriad at bob Cenedl – dim ond at wahaniaethau yn yr Alban yr oedd y canllawiau blaenorol yn cyfeirio. (8.4.13)

Mae’r canllaw ar gyfweld troseddwyr wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at her briodol. (8.4.16)

Mae’r canllawiau ar Iaith Casineb wedi cael eu diwygio. Mae’r rhestr bellach yn cynnwys anabledd ac mae geiriad y canllaw bellach yn cyd-fynd â chanllawiau cyfredol Gwasanaeth Erlyn y Goron. (8.4.3)

Mae’r canllaw ar ddangos technegau troseddol wedi cael ei ddiwygio i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â geiriad Ofcom ac i gydnabod bod dramâu’n dangos gweithgarwch troseddol yn rheolaidd. (8.4.5)

Mae teitl yr adran ‘Celu Hunaniaethau’ wedi cael ei newid i ‘Nodi pobl sy’n ymwneud ag ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol’ i egluro nad yw hyn yn ymwneud â mathau eraill

o anhysbysrwydd (e.e. dioddefwyr camdriniaeth). Mae'r rhestr o amgylchiadau lle mae'n dderbyniol celu hunaniaeth bellach yn cynnwys 'lle mae arferion gwrthgymdeithasol neu droseddol gan blant a phobl ifanc yn cael eu datgelu'. (8.4.29)

### *Adran 9: Plant a Phobl Ifanc fel Cyfranwyr*

Mae 'gofid diangen' wedi cael ei newid i 'ofid anghyfiawn' i adlewyrchu paragraff 1.29 yng Nghod Ofcom yn yr egwyddorion.

Mae'r canllawiau ar Gydsyniad Rhieni wedi cael eu diwygio i adlewyrchu paragraff 7.4 yng Nghod Ofcom ('yn benodol, ni ddylid gofyn i rai dan un ar bymtheg oed am eu barn am faterion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ateb yn briodol heb gael cydsyniad o'r fath'), yn benodol:

- Mae'r gair 'fel arfer' wedi cael ei ddileu felly mae'r canllaw bellach yn dweud, 'Dylid cael cydsyniad rhieni os gofynnir i'r plant am eu barn ynghylch materion sy'n debygol o fod y tu hwnt i'w gallu i ymateb iddynt yn iawn'. (9.4.3)

- Ceir canllaw newydd ar geisio cydsyniad rhieni lle bo hynny'n briodol ar gyfer faint o wybodaeth y gellir ei chynnwys am eu plentyn neu, mewn rhai achosion, eu person ifanc. (9.4.6)

Mae canllaw newydd wedi cael ei gynnwys i adlewyrchu paragraff 7.3 yng Nghod Ofcom ('os gwahoddir rhywun i gyfrannu at raglen … dylid gwneud y canlynol fel arfer ar adeg briodol: … ei hysbysu am risgiau posibl sy'n codi o'i gyfranogiad yn y rhaglen a allai effeithio ar ei les … ac unrhyw gamau y mae'r darlledwr a/neu wneuthurwr y rhaglen yn bwriadu eu cymryd i liniaru'r rhain').

Mae'r canllawiau newydd yn nodi, pan fydd risgiau posibl i gyfrannwr dan 18 oed wedi cael eu nodi mewn perthynas â'i gyfraniad at gynnwys y BBC, dylai'r rhiant/gwarcheidwad fel arfer gael gwybodaeth berthnasol am y risgiau posibl hynny ac unrhyw gamau a gymerir i'w lliniaru. (9.4.8)

Mae'r canllawiau wedi cael eu diwygio i adlewyrchu diwygiadau i baragraffau 1.28 ac 1.29 yng Nghod Ofcom ar ofal dyladwy:

Mae'r adran ar Ddiogelu Lles Plant a Phobl Ifanc bellach yn cynnwys ystyr gofal dyladwy a chanllaw ar ddangos gofal dyladwy i gynulleidfaoedd. (9.4.16)

Mae canllaw newydd sy'n nodi, wrth gynllunio i weithio gyda phlant a phobl ifanc, rhaid cynnal asesiad risg gofal dyladwy cyfrannwr i nodi unrhyw risg sylweddol o niwed. (9.4.18)

Mae adran newydd ar 'ddangos gofal dyladwy'. (9.4.19)

Mae'r iaith sy'n ymwneud ag enwi plant wedi cael ei hehangu i adlewyrchu'r posibilrwydd y bydd adegau pan fydd hi'n briodol enwi plant yn allbwn y BBC. (9.4.20)

Mae atgyfeiriad gorfodol newydd i'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni cyn enwi plentyn neu berson ifanc sy'n destun gorchymyn sy'n ymwneud â'i ymddygiad, sydd ag euogfarn neu sy'n gysylltiedig ag achos llys. (9.2.22) Mae hyn yn adlewyrchu adran 8 o'r canllawiau.

Mae'r canllaw ar 'Effaith Cyfraniad' yn atgoffa gwneuthurwyr rhaglenni y dylid ystyried y fformat yn ofalus am ei effaith debygol ar gyfranwyr dan 18 oed, fel siociau effaith uchel mewn cynnwys byw ac ystyried a yw'n briodol neu a oes modd rhoi mesurau lliniaru ar waith. (9.4.30) Mae hyn yn adlewyrchu canllawiau Ofcom yn Adran Un o'r Cod Darlledu.

Mae canllaw newydd ar ôl-ofal priodol (9.4.32).

Mae'r canllawiau ar Drwyddedu Perfformwyr sy'n Blant bellach yn cyd-fynd â'r geiriad ym Mholisi Diogelu'r BBC (9.4.34)

### *Adran 10: Gwleidyddiaeth a Pholisi Cyhoeddus*

Y newid mwyaf arwyddocaol yw bod y canllawiau sy'n ymwneud â pholau piniwn, arolygon ac ystadegau wedi cael eu symud o'r adran hon i'w hadran eu hunain o'r canllawiau i bwysleisio eu defnydd y tu hwnt i faterion gwleidyddol.

Mae polau bwriad pleidleisio yn dal yn yr adran hon ac mae croesgyfeiriad at adran 11 (ac i'r gwrthwyneb).

Mae'r egwyddor ar bolau bwriad pleidleisio bellach yn y canllawiau – o'r blaen, dim ond yn y canllawiau etholiadol pwrpasol yr oedd hyn ond mae bellach wedi'i gynnwys yn y prif ganllawiau golygyddol. (10.2.4)

Mae atgyfeiriad gorfodol newydd i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ar gyfer unrhyw gynnig i dalu ffi i wleidydd cyflogedig etholedig neu i eraill y nodwyd eu bod yn cynrychioli plaid wleidyddol. (10.3.3)

Mae'r atgyfeiriad gorfodol ar gyfer ceisiadau am ddarllediad gweinidogol neu ymateb i ddarllediad wedi cael ei ddiwygio i'w gwneud yn glir bod yn rhaid atgyfeirio'r ceisiadau i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth cyn rhoi ymateb. (10.3.5)

Mae'r atgyfeiriad gorfodol ar gyfer defnyddio deunydd o siambrau neu bwyllgorau Seneddau a Chynulliadau wedi cael ei ddiwygio. (10.4.10)

Mae'r adran ar Daliadau i Wleidyddion bellach yn cynnwys Meiri a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu. (10.4.9)

Mae'r canllawiau ar Ddarllediadau Gweinidogol a Gwybodaeth gan y Llywodraeth bellach yn cynnwys cyfeiriad at 'argyfyngau cenedlaethol arall' i ystyried argyfyngau fel Covid. Mae'r canllawiau hefyd yn cydnabod pan fydd argyfyngau o'r fath yn digwydd mewn perthynas â materion datganoledig, fel iechyd, efallai y bydd angen ymateb gan lywodraethau eraill a gan bleidiau. (10.4.13)

Mae canllaw newydd yn yr adran Etholiadau a Refferenda sy'n tynnu sylw at amserlen hir rhai etholiadau, sy'n golygu bod angen ystyried materion yn ymwneud â didueddrwydd a thegwch yn gynharach. (10.4.22)

### *Adran 11: Ystadegau, Data, Polau Piniwn ac Arolygon*

Mae hon yn adran newydd o'r canllawiau. Mae'r rhan ar ystadegau yn seiliedig ar rannau allweddol o'r canllawiau ar 'Ohebu ar Ystadegau' ond mae hefyd yn ystyried yr Adolygiad Thematig o Drethiant, Gwariant Cyhoeddus, Benthyca gan y Llywodraeth a Dyled.

Mae'r rhan ar ddata yn yr adran hon wedi cael ei hysgrifennu i helpu i fframio'r defnydd cynyddol o ddata o bob math yn allbwn y BBC. Mae wedi'i seilio'n bennaf ar yr arfer da a ddatblygwyd gan newyddiadurwyr sy'n gweithio yn nhîm data Newyddion a'r protocolau sydd eisoes ar waith ganddynt sy'n delio â defnyddio, cyrchu a chyflwyno data yn briodol. Datblygwyd yr arfer da hwn ymhellach gydag arbenigwyr pwnc i adlewyrchu'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial yn y maes hwn.

Mae'r canllawiau ar bolau piniwn ac arolygon, a oedd yn flaenorol yn adran 10 o'r canllawiau, wedi cael eu symud i'r adran newydd hon a'u diweddaru. Nid oedd llawer o ddefnyddwyr bob amser yn gwerthfawrogi bod y canllawiau hyn yn berthnasol y tu hwnt i faterion gwleidyddol ac nid oeddent yn ymwybodol o rai atgyfeiriadau gorfodol, felly penderfynwyd gwahanu polau piniwn ac arolygon oddi wrth wleidyddiaeth a pholisi cyhoeddus.

Mae'r gwahaniaeth rhwng polau piniwn/barn a phrofiadau wedi'i ddiffinio drwy gydol yr adran hon. (11.4.25)

Mae'r adran ar 'Gomisiynu Polau Piniwn gan gwmnïau polau piniwn' wedi cael ei hehangu i roi cyngor manylach i wneuthurwyr rhaglenni. (11.4.29)

Mae'r canllaw ar gomisiynu pôl piniwn ar fwriad pleidleisio neu arwyddion eraill o gefnogaeth i bleidiau gwleidyddol wedi'i gynnwys yn y canllawiau am y tro cyntaf. (11.4.33) Yn flaenorol, roedd hyn yn y canllawiau etholiadol pwrpasol yn unig.

Mae'r canllaw ar ohebu ar un pôl piniwn wedi cael ei ddiwygio. O'r blaen, cael y canlyniad yn brif stori neu'n bennawd mewn unrhyw allbwn wedi'i wahardd. Mae bellach wedi cael ei ddiwygio i fod yn atgyfeiriad gorfodol i'r Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth ymlaen llaw. (11.4.34)

Mae'r adran ar Arolygon, Holiaduron, Grwpiau Ffocws, Pleidleisiau a Vox Pops yn cynnwys, am y tro cyntaf, cyngor ar ddefnyddio gwaith academaidd. (11.4.44)

Mae canllawiau ar ddefnyddio vox pops wedi cael eu cryfhau, gan gynnwys meini prawf newydd ar gyfer comisiynu vox pops am wleidyddiaeth, polisi cyhoeddus cyfredol a materion dadleuol. (11.4.46)

### *Adran 12:* Rhyfel, Terfysgaeth a Thrais Eithafol, Trychineb ac Anhrefn

Mae'r adran hon wedi newid ei theitl o 'Ryfel, Terfysgaeth ac Argyfyngau' i'w gwneud yn fwy perthnasol i straeon sy'n cael sylw. Er enghraifft, rydym yn fwy tebygol o ymdrin â thrychineb nag argyfwng cenedlaethol; nid yw pob digwyddiad trais eithafol yn gysylltiedig â 'therfysgaeth'. Ychwanegwyd y gair 'anrhefn' i dynnu sylw defnyddwyr at ganllawiau ar y maes hwn.

Mae egwyddor newydd ar Gonfensiwn Genefa a charcharorion rhyfel. (12.2.3)

Mae atgyfeiriad gorfodol newydd i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol a'r tîm Cyngor Cyfreithiol Rhaglenni ar gyfer ymdrin ag unrhyw ddeunydd a allai berthyn i delerau deddfwriaeth Cyfrinachau Swyddogol. (12.3.5)

Mae'r Canllawiau'n parhau i fynnu mai dim ond gyda phriodoliad y dylid defnyddio'r term 'terfysgaeth'. (12.4.8)

Mae'r is-adran ar 'Gythrwfl a Therfysgoedd' wedi'i hail-enwi i 'Brotestiadau, Aflonyddwch a Therfysgoedd Treisgar' i ddiweddaru'r iaith a'i gwneud yn glir mai dim ond protestiadau anheddychlon sydd dan sylw yn yr adran hon. Mae hefyd bwynt bwled newydd ar ddefnyddio negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â rhoi sylw i'r gweithgareddau hyn. (12.4.10)

Mae 'lladd torfol' wedi cael ei ychwanegu at yr is-adran ar warchae, cymryd gwystlon a herwgipio. (12.4.19)

Mae atgyfeiriad gorfodol newydd i'r Cyfarwyddwr Polisi a Safonau Golygyddol ar gyfer unrhyw gynnig i ddarlledu cynnwys a wneir gan y rhai sy'n gyfrifol am warchae neu ladd torfol, herwgipio, llofruddio neu gymryd gwystlon. Mae hyn wedi cael ei gynnwys i adlewyrchu'r ffaith fod y bobl hyn bellach yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'w gweithredoedd. (12.3.3)

### *Adran 13: Defnyddio Cynnwys y BBC ar ôl ei Gyhoeddi neu ei Ddarlledu*

Mae'r teitl wedi cael ei newid o 'Ailddefnyddio, Ailfersiynu ac Argaeledd Parhaol' mewn ymateb i adborth nad oedd defnyddwyr yn sylweddoli bod yr adran hon yn berthnasol i BBC iPlayer a BBC Sounds, yn ogystal â chynnwys y caiff ei ystyried yn draddodiadol yn gynnwys archif. Mae atgyfeiriad newydd i'r tîm cyfreithiol Technoleg a Chynnyrch Defnyddwyr a'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer unrhyw geisiadau gan drydydd partïon i ddefnyddio AI i ailddefnyddio neu ailfersiynu deunydd y BBC. (13.3.12)

Mae pwynt bwled newydd yn ymwneud â phobl ifanc wedi cael ei ychwanegu at gynnwys archif a allai ddod yn fwy sensitif dros amser. Hynny yw, efallai fod y rheini sy'n cael eu cynnwys fel pobl ifanc wedi newid eu bywyd yn llwyr erbyn hyn. (13.4.14)

Bydd yr adran ar reoli cynnwys ar-lein yn cael ei hadolygu eto cyn cyhoeddi i sicrhau bod y geiriad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol gyfredol ar yr Hawl i gael eich Anghofio a chyfrifoldeb darlledwyr. (13.4.24-30)

Mae geiriad newydd wedi'i ychwanegu at ganllaw 13.4.29. Mae'r canllaw yn nodi'n glir y dylid gwneud diwygiadau'n brydlon, yn glir ac yn briodol a nodi'r hyn a oedd yn anghywir, yn ogystal â'i gywiro. Mae'r geiriad hwn hefyd yn adlewyrchu'r geiriad yn yr adran Cywirdeb.

Mae canllaw newydd ar drefniadau trwyddedu, sy'n nodi y dylai'r rhain fel arfer gynnwys darpariaeth i ddeunydd y BBC gael ei ddileu neu ei rwystro ar unwaith os bydd y BBC yn gofyn am hynny. (13.4.35)

Mae'r adran ar ddeunydd Heb ei Gyhoeddi/Heb ei Ddarlledu wedi cael ei diwygio. Mae'r canllawiau'n cynnwys cyfeiriad at y broses ar wahân ar gyfer y Ganolfan Archif Ysgrifenedig

(13.4.36) sy'n broses hirsefydlog ond nad yw byth yn cael ei chrybwyll yn benodol yn y canllawiau; ac mae canllaw newydd mewn perthynas â chytundebau partneriaeth (13.4.40).

### *Adran 14: Cynnwys Crefyddol*

Mae'r canllaw ar ddadleuon crefyddol wedi cael ei ddiwygio, gan dynnu'r geiriau 'Ni ddylid caniatáu i gyfranwyr fychanu credoau pobl eraill' oherwydd gallai hynny lesteirio trafodaeth. (14.3.1)

Mae'r canllaw ar ryngweithio wedi cael ei aralleirio i ddileu'r pwyntiau bwled. Mae dulliau rhyngweithio'n newid dros amser ac mae angen i'r canllawiau fod mor addas â phosibl ar gyfer y dyfodol. (14.3.4)

### *Adran 15: Bod yn Annibynnol ar Fuddiannau Masnachol a Buddiannau Allanol eraill*

Mae'r gair 'masnachol' wedi'i ychwanegu at y teitl i bwysleisio bod buddiannau masnachol wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

Mae'r 'ystyron' wedi cael eu symud i gorff y canllawiau, i eistedd ochr yn ochr â'r canllaw/adran berthnasol o'r bennod.

Mae'r adran bellach yn cynnwys cyfeiriadau at 'frandiau' a 'sefydliadau' i'w gwneud yn glir bod y rhain i gyd yn fuddiannau masnachol a ystyrir.

Mae'r canllaw ar amlygrwydd cynnyrch wedi cael ei ddiwygio i egluro y gall cyfeiriadau fod yn llafar neu'n weledol, ac mae cyfuniad o'r ddau yn debygol o greu risg uwch o amlygrwydd gormodol na chyfeiriad llafar neu weledol syml. (15.4.1)

Mae'r canllaw ar amlygrwydd cynnyrch a rhyngweithio yn ei gwneud yn glir y dylai'r brandiau a'r hashnodau a ddefnyddir fod yn briodol ar gyfer y gynulleidfa ddisgwyliedig. (15.4.3)

Mae'r canllaw ar gynnyrch a ddefnyddir fel gorchudd set wedi cael ei ddiwygio i gynnwys ystyried a oes unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau mewn perthynas â'r cynnyrch a'r Talent yn y rhaglen. (15.4.9)

Mae'r iaith ar gyfleuster cyfryngau a thripiau canfod ffeithiau wedi cael ei diwygio i ystyried canfyddiadau cynulleidfaoedd a'r risg i enw da'r BBC wrth benderfynu a ddylid derbyn unrhyw gynigion o'r fath. Mae'r canllawiau hefyd yn datgan bod yn rhaid cael cyfiawnhad golygyddol dros unrhyw gyfeiriad at y sefydliad sydd wedi hwyluso'r trip. (15.4.18-20)

Mae pecynnau ffeithiau wedi cael eu cynnwys fel deunydd ategol (15.4.28).

Bellach mae atgyfeiriad gorfodol i'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer unrhyw gynnig i ystyried unrhyw elusennau nad ydynt ar gael drwy BBC Action Lines (15.4.28).

Mae atgyfeiriad gorfodol newydd i'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer unrhyw gynnig i leoli cynnyrch mewn unrhyw gynnwys a wnaed yn wreiddiol gan y BBC neu a gomisiynwyd gan y BBC ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus y DU. (15.4.36)

*Adran 16: Perthnasoedd Allanol, gan gynnwys Perthnasoedd Masnachol ac Ariannu*

Mae'r adran hon yn ymdrin â sut gall y BBC weithio gyda sefydliadau trydydd parti.

Mae'r atgyfeiriad gorfodol ar gyfer partneriaethau â llywodraethau wedi cael ei ddiwygio. Roedd y canllawiau blaenorol yn cyfeirio at 'lywodraeth dramor', mae'r atgyfeiriad newydd ar gyfer 'unrhyw lywodraeth'. (16.3.1)

Mae gofyniad newydd i ymgynghori â'r tîm Polisi Golygyddol ynghylch unrhyw gynnig i ddarlledu neu i fewnblannu ffrwd fyw trydydd parti. (16.3.6)

Mae'r canllawiau bellach yn cynnwys atgyfeiriad gorfodol i'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer unrhyw gynnig i gyfeirio at noddwyr digwyddiadau trydydd parti nad ydynt yn ymwneud â chwaraeon ar-lein neu ar yr awyr. Roedd hyn wedi'i nodi'n flaenorol yn y nodiadau cyfarwyddyd ond mae bellach wedi symud i'r canllawiau. (16.3.18)

Mae atgyfeiriad newydd i'r tîm Polisi Golygyddol ar gyfer rhoi sylw ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus i unrhyw ddigwyddiad a noddir gan frand neu gynnyrch gwasanaeth masnachol y BBC. (16.3.19)

Mae gofyniad 'diwydrwydd dyladwy' wedi cael ei ychwanegu at y rhestr o ystyriaethau wrth benderfynu ar ba mor briodol yw partner allanol. (16.4.3)

Mae canllaw newydd yn yr adran ar Briodoldeb: rheolaeth olygyddol, sy'n ystyried y gall y BBC gynnal cynnwys nad yw wedi'i gomisiynu ar BBC iPlayer neu BBC Sounds. Mae'r canllaw'n datgan bod yn rhaid i'r BBC gael yr hawl i sicrhau bod y deunydd hwn yn cydymffurfio er mwyn cyrraedd safonau golygyddol y BBC. (16.4.6)

Mae canllaw newydd ar ddefnyddio technoleg, fel AI, mewn perthynas â chynnwys y BBC neu greu cynnyrch y BBC. (16.4.8)

Nid yw'r canllawiau bellach yn gwahardd hysbysebu a nawdd ger cynnwys wedi'i ddosbarthu yn y DU. Mae'r canllawiau bellach yn nodi bod yn rhaid i wasanaethau lynu wrth y Canllawiau ar Hysbysebu a Nawdd i Wasanaethau Masnachol (16.4.19)

*Adran 17: Cystadlaethau, Pleidleisiau a Rhyngweithio*

Mae'r adran hon wedi cael ei diwygio i ystyried gofynion Ofcom ar ofal dyladwy i gystadleuwyr a chyfranwyr; datblygiadau newydd mewn technoleg a rheoleiddio ynghylch defnyddio technoleg o'r fath; ffyrdd newydd a mwy ymdrwythol o ryngweithio â chynulleidfaoedd; dulliau codi arian newydd ar gyfer apeliadau elusennau; newidiadau ym mholisi tocynnau'r BBC; a newidiadau yn y ffordd y mae'r BBC yn gweithio gyda thrydydd partïon i ehangu ac ymestyn y posibiliadau rhyngweithiol sy'n ymwneud â chynnwys y BBC.

Mae'r egwyddorion yn cynnwys cyfeiriad at degwch a chynhwysiant i adlewyrchu gofynion gofal dyladwy. (17.2.2 a 17.2.13)

Mae gofynion Ofcom ar ofal dyladwy hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau wedi'u diweddaru ar Sioeau Gemau a Chwisiau. (17.4.34-41)

Mae'r canllawiau bellach yn cynnwys 'rafflau' i adlewyrchu'r ffaith bod Plant mewn Angen a Comic Relief wedi bod yn defnyddio'r rhain fwy a mwy.  Mae gofynion rheoleiddiol penodol ynghylch cynnal rafflau ac mae unrhyw gynnig i'w defnyddio bellach yn atgyfeiriad gorfodol i'r tîm Polisi Golygyddol a'r Uned Cyngor a Chontractau Technegol Rhyngweithedd (ITACU). (17.3.11)

Mae'r adran ar 'Gemau' wedi cael ei hehangu i gynnwys canllawiau ar chwarae gemau, realiti estynedig a realiti rhithwir.  (17.4.77-83)

### *Adran 18 – Y Gyfraith*

Mae'r adran hon wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu newidiadau yn y Gyfraith ers 2019.

Rhoddir mwy o eglurhad ynghylch beth yw gwybodaeth breifat mewn perthynas â phreifatrwydd. (18.4.1)